



ADRODDIAD BLYNYDDOL  
ANNUAL REPORT  
2004-2005

  
BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD

Noddir gan  
Lywodraeth Cynulliad Cymru  
Sponsored by  
Welsh Assembly Government





# CYNNWYS CONTENTS

---

RHAGAIR Y CADEIRYDD_ THE CHAIR'S INTRODUCTION .....	1
CRYNODEB GWEITHREDOL_ EXECUTIVE SUMMARY .....	5
TWF_ TWF .....	9
ADDYSG_ EDUCATION .....	13
POBL IFANC_ YOUNG PEOPLE .....	17
Y GYMUNED_ THE COMMUNITY .....	20
Y SECTOR PREIFAT_ THE PRIVATE SECTOR .....	25
Y SECTOR CYHOEDDUS_ THE PUBLIC SECTOR .....	27
NEGES Y PRIF WEITHREDWR_ MESSAGE FROM THE CHIEF EXECUTIVE .....	31
PARTNERIAID_ PARTNERS .....	33
AR HYD AC AR LED_ FAR AND WIDE .....	37
CEFNDIR_ BACKGROUND .....	43
DATGANIAD ARIANNOL CRYNO_ SUMMARY FINANCIAL STATEMENT .....	50
ATODIAD 1 – ASESIAID PERFFORMIAD ANNEX 1 – PERFORMANCE ASSESSMENT .....	64
ATODIAD 2 – GRANTIAU ANNEX 2 – GRANTS .....	66
ATODIAD 3 – CYNLLUNIAU IAITH GYMRAEG ANNEX 3 – WELSH LANGUAGE SCHEMES .....	69

## RHAGAIR Y CADEIRYDD THE CHAIR'S INTRODUCTION



### Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2004-05.

Ers imi ddod yn Gadeirydd y Bwrdd lai na blwyddyn yn ôl, yr hyn sydd wedi fy nharo'n arbennig yw rhychwant eang y gwaith ar y naill law, a'r holl wybodaeth a phrofiad y mae'r Bwrdd wedi eu cronni dros un mlynedd ar ddeg, ar y llaw arall. Nid yng Nghymru yn unig y caiff arbenigedd a phroffesiynoldeb y Bwrdd ei gydnabod, ond hefyd y tu hwnt i'r wlad. Ceir prawf pendant o hyn yn y diddordeb cyson y mae Rhwydwaith Byrddau Iaith Ewrop wedi ei ddangos yn ein gwaith. Dyma'r corff a sefydlwyd yn 2001 i drafod materion sy'n gyffredin i ieithoedd lleiafrifol yn Ewrop. O'r cychwyn, mae ein profiadau ni yng Nghymru wedi ennyn parch cynllunwyr ieithyddol ar y cyfandir, a chaiff ein modelau ni eu hystyried yn fodelau y gellid eu hefelychu er lles mewn gwledydd eraill, yn arbennig ein cynllun arloesol Twf sy'n ceisio perswadio rhieni i siarad Cymraeg gyda'u plant.

Mae Twf yn un agwedd bwysig ar ein gwaith a grybwyllir yng nghorff yr adroddiad hwn, sy'n canolbwyntio ar y prif bethau a gyflawnwyd yn ystod y

### It is a pleasure for me to submit the annual report of the Welsh Language Board for 2004-05.

Since I became Chairman of the Board less than a year ago, I've been particularly struck by the wide range of the work of the Board on the one hand, and on the other, all the knowledge and experience the Board has accumulated over eleven years. The expertise and professional nature of the Board is recognised in Wales and beyond. Definite proof of this is found in the regular interest shown in our work by the Network of European Language Boards. This is the body founded in 2001 to discuss matters that are common to the minority languages of Europe. From the beginning, our experiences in Wales have inspired the respect of language planners abroad, and our models are considered as ones that can be replicated to good use in other countries, especially our pioneering Twf project which attempts to persuade parents to speak Welsh with their children.

Twf is one important aspect of our work that is mentioned in the body of this report, which concentrates on our main achievements during the period in

cyfnod yn ein priod feysydd: addysg, pobl ifanc, y gymuned, y sectorau preifat a chyhoeddus, ac yn ein gwaith gyda'n partneriaid. Yn ogystal, ceir adran sy'n edrych ar rai themâu mwy cyffredin megis marchnata, sy'n treiddio i'n holl waith, a thechnoleg gwybodaeth, sy'n ceisio cryfhau seilwaith y Gymraeg ac ehangu ei defnydd mewn meysydd cyfoes. A gaf i eich annog i ddarllen ac astudio'r manylion, er mwyn i chithau hefyd gael blas ar amrywiaeth gwaith y Bwrdd.

Ond wedi dweud hyn, mae'n anorfod eleni rhoi'r prif sylw i ddatblygiad na ddeilliodd o'n gwaith dros y cyfnod, sef penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i ddiddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac ymgorffori'r rhan fwyaf o'i swyddogaethau oddi mewn i'r drefn ganolog.

Fel y gallwch ddychmygu, roedd y penderfyniad yn un ysgytwol i'r Bwrdd ac i'w staff a'i bartneriaid, ond rhaid i mi bwysleisio hefyd, er gwaethaf ein pryderon, nad ydym wedi cymryd agwedd negyddol i'r newidiadau sy'n yr arfaeth. Yn hytrach, rydym wedi dweud mai'r hyn yr ydym am ei weld uwchlaw pob dim arall yw parhad i waith a gweledigaeth y Bwrdd er budd y Gymraeg. I'r perwyl hwn, rydym eisoes wedi llunio Cynllun Strategol ar gyfer y dyfodol, sy'n rhestru'r prif flaenoriaethau gweithredu, a'r hyn sydd angen ei gyflawni er mwyn gweld y Gymraeg yn ffynnu o ran ei statws mewn Cymru ddwyieithog, ac o ran nifer ei siaradwyr a'u defnydd nhw o'r iaith.

the following fields: education, young people, the community, the private and public sectors, and in our work with our partners. There is also a section that looks at some more general themes such as marketing, which permeates all our work, and information technology which tries to strengthen the foundations of the Welsh language and expand its use in contemporary fields. Can I urge you to read and study the details so that you can also have a taste of the variety of the Board's work.

Having said this, it is inevitable this year that most attention will be given to a development that did not result from our work over the period, namely the decision of the Welsh Assembly Government to abolish the Welsh Language Board and incorporate most of its functions within the central system.

As you can imagine, the decision was a blow to the Board and its staff and partners, but I must emphasise also, despite our concerns, that we have not taken a negative approach to the changes that are afoot. Rather, we have stated that what we want to see above all else is a continuation of the work and vision of the Board for the benefit of the Welsh language. To this end, we have already drawn up a Strategic Plan for the future, which lists the main priorities for action, and what we need to achieve in order to see the Welsh language flourishing as regards its status in a bilingual Wales, and as regards the number of its speakers and their use of the language.

Mae profiad y Bwrdd o oruchwylio gweithredu Cynlluniau Iaith wedi dangos eto nifer o wendidau: er enghraifft, nid oes gorfodaeth ar gyrff i ddarparu gwybodaeth pan fo'r Bwrdd yn ymchwilio i ddiffyg gweithrediad eu Cynlluniau Iaith; hefyd, mae gafael y Bwrdd i oruchwylio paratoi a gweithredu Cynlluniau Iaith gan gyrff y Goron dipyn yn wannach nag ydyw pan fydd cyrff cyhoeddus eraill yn paratoi eu Cynlluniau.

O ran ymestyn y ddeddfwriaeth, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dangos arweiniad yn barod drwy gynnwys y cwmnïau dŵr o fewn cwmipas Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Braf yw gweld gwasanaethau o natur gyhoeddus a ddarperir bellach gan gyrff preifat yn dod o dan y Ddeddf. Dyna fu safbwynt y Bwrdd o'r dechrau. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi y bydd angen deddfwriaeth gynradd i sefydlu dyfarnydd i ddelio â'r swyddogaethau hynny yn Neddf Iaith 1993 na fyddai'n briodol iddi ymgymryd â nhw.

Peidied neb â meddwl bod y Bwrdd ar ddiwedd ei fodolaeth yn chwennych unrhyw wrthdaro diangen rhyngddo â'r Llywodraeth; cydweithio â'n holl bartneriaid fu ein nod erioed fel Bwrdd, a hynny er lles y Gymraeg. Heb y cydweithio hwnnw, byddai ein llwyddiannau dipyn yn dlotach. A thrwy gydgyfarfod yn gyson gyda'n prif bartneriaid, rydym wedi llwyddo i greu cyfrwng i gynnal trafodaeth barhaus a chynhyrchiol ar hyrwyddo'r iaith a hwyluso ei defnyddio.

Diolch, felly, i'n partneriaid i gyd, mawr a bach, am eu hymrwymiad i genhadaeth y Bwrdd dros y flwyddyn

The Board's experience of supervising the implementation of Language Schemes has again revealed a number of weaknesses: for example, there is no compulsion on bodies to provide information when the Board is investigating lack of implementation of their Language Schemes; also the Board's hold on supervising the preparation and implementation of Language Schemes by Crown bodies is considerably weaker than it is when other public bodies are preparing their Schemes.

As regards extending the legislation, the Welsh Assembly Government has already shown the way by including the water companies within the Welsh Language Act 1993. It is good to see services of a public nature now provided by private companies coming under the Act. This has been the view of the Board from the beginning. The Government has also announced that primary legislation will be needed to establish an adjudicator to deal with those functions in the 1993 Language Act that it would not be appropriate for the Government to undertake.

Let no-one think that the Board at the end of its life, desires any unnecessary conflict between itself and the Government; our aim as a Board has always been to co-operate with all our partners, for the benefit of the Welsh language. Without that co-operation, our successes would have been considerably fewer. Through regular joint meetings with our major partners, we have succeeded in creating a means of holding continuous and fruitful discussions on promoting the language and facilitating its use.

a aeth heibio. Diolch yn arbennig i Alun Pugh AC, y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, am ei ddiddordeb yn ein gwaith bob amser; diolch hefyd i aelodau eraill y Cynulliad o bob plaid am eu cefnogaeth nhw. Ac yn olaf, diolch i'm cyd-aelodau am eu cydweithrediad a'u cyngor parod, ac i Meirion Prys Jones a staff y Bwrdd am eu hymrwymiad diflino i'w gwaith. Yr ymrwymiad hwnnw yw'r prif reswm dros y rhestr hir o lwyddiannau a groniclir yn yr adroddiad blynyddol hwn.



Meri Huws  
Cadeirydd\_Chair

Thanks, therefore, to all our partners, great and small, for their commitment to the Board's mission over the past year. A special thanks to Alun Pugh AM, the Minister with responsibility for the Welsh language, for his interest in our work at all times; thanks also to other members of the Assembly from all parties for their support. And finally I thank my fellow members for their co-operation and ready advice, and to Meirion Prys Jones and the staff of the Board for their tireless commitment to their work. It is that commitment that is the main reason for the lengthy list of successes chronicled in this annual report.

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## EXECUTIVE SUMMARY

Corff statudol yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg a sefydlwyd ar 21 Rhagfyr 1993. Ei brif swyddogaeth yw hwyluso a hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg. Noddir y Bwrdd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru sydd yn asesu ei waith yn flynyddol yn unol â thargedau penodol. Meri Huws yw Cadeirydd y Bwrdd ac mae 10 aelod arall iddo. Meirion Prys Jones yw'r Prif Weithredwr, ac mae ef yn arwain tîm o tua 70 o staff sydd wedi'u lleoli ledled Cymru, ond yn bennaf yn ein tair prif swyddfa: yng Nghaerdydd, Caernarfon a Chaerfyrddin. Dyma rai o'r uchafbwyntiau a restrir yn adrannau'r Adroddiad Blynyddol hwn.

### TWF

- Bydd Twf yn bedair oed ym mis Mai eleni.
- Parhaodd y cydweithio agos gyda bydwagedd ac ymwelwyr iechyd lleol, a chydag S4C, Mudiad Ysgolion Meithrin a'r Mentrau Iaith, i gynnig cymorth ymarferol i rieni ar drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant.
- Lansiodd cardiau sgan Twf, a dosbarthwyd tua 20,000 ohonyn nhw i rieni.
- Lansiodd y wefan [www.twfcymru.com](http://www.twfcymru.com) i godi ymwybyddiaeth am fanteision dwyieithrwydd.
- Cychwynnwyd prosiect ymchwil tair blynedd i astudio traweffaith Twf.

The Welsh Language Board is a statutory body established on 21 December 1993. Its main function is to facilitate and promote the use of the Welsh language. The Board is sponsored by the National Assembly for Wales which assesses its work annually in accordance with specific targets. Meri Huws is the Chairman of the Board and it has 10 other members. Meirion Prys Jones is the Chief Executive and he leads a team of some 70 staff located across Wales, but principally in our three main offices in Cardiff, Caernarfon and Carmarthen. Here are some of the highlights listed in the sections of the Annual Report.

### TWF

- Twf will be four years old in May this year.
- The close co-operation with local midwives and health visitors has continued, and with S4C, Mudiad Ysgolion Meithrin and the Mentrau Iaith, to offer practical assistance to parents on transferring the language to their children.
- Twf scan cards were launched, and approximately 20,000 were distributed to parents.
- The website [www.twfcymru.com](http://www.twfcymru.com) was launched to raise awareness about the advantages of bilingualism.
- A three-year research project has been commenced to study the impact of Twf.

### ADDYSG

- Cwblhawyd canllawiau manwl ar baratoi ail Gynlluniau Addysg Gymraeg.
- Derbyniodd pedwar awdurdod addysg lleol gymeradwyaeth i'w hail Gynllun.
- Dyrannwyd dros £2.6 miliwn mewn grantiau i awdurdodau addysg lleol hyrwyddo addysg Gymraeg.
- Cyflawnwyd ail flwyddyn y Cynllun Peilot ar addysg drochi.
- Cynhaliwyd dau ddigwyddiad i farchnata sgiliau galwedigaethol dwyieithog.

### POBL IFANC

- Rhoddwyd grantiau i'r Urdd ac i bartneriaid eraill i gynyddu cyfleoedd cymdeithasol pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Dechreuwyd llunio Strategaeth Ieuenctid a gaiff ei lansio yn yr haf.
- Parhawyd i ddatblygu, mewn cydweithrediad â BBC Cymru, S4C ac eraill, ein cynlluniau i hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg ymysg pobl ifanc.
- Parhawyd i gryfhau ein perthynas gyda Chlybiau Ffermwyr Ifanc, gyda'r nod o gynyddu ac ehangu defnyddio'r Gymraeg.

### Y GYMUNED

- Parhawyd i gynnal a datblygu 11 Cynllun Gweithredu Iaith i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig.

### EDUCATION

- Detailed guidelines were completed on preparation of second Welsh Education Schemes.
- Four education authorities received approval for their second Scheme.
- Over £2.6 million in grants was allocated to local education authorities to promote Welsh education.
- The second year of the Pilot Scheme on immersion education was completed.
- Two events were held to market bilingual vocational skills.

### YOUNG PEOPLE

- Grants were given to the Urdd and to other partners to increase social opportunities for young people to use the Welsh language.
- Work commenced on drawing up a Youth Strategy which will be launched in the summer.
- We continued to develop, in co-operation with BBC Wales, S4C and others, our schemes to promote Welsh music among young people.
- We continued to strengthen our relationship with the Young Farmers' Clubs, with the aim of increasing and expanding the use of the Welsh language.

### THE COMMUNITY

- We continued to maintain and develop 11 Language Action Plans to increase the social use of the Welsh language in areas of special linguistic significance.

- Datblygwyd Cynllun Cymathu Mewnfudwyr Llŷn i annog newydd-ddyfodiaid i gymryd rhan lawn ym mywyd cymdeithasol y fro.
- Cynhyrchwyd dau becyn croeso ar gyfer y de-orllewin a'r gogledd-orllewin.
- Lansiodd y wefan [www.symudigymru.com](http://www.symudigymru.com) i gynnig gwybodaeth am Gymru a'r Gymraeg.
- Cynhaliwyd, am yr ail flwyddyn, ein hymgyrch Cymraeg yn Gyntaf mewn deg tref ledled Cymru.
- Lansiodd HYSBYS, mewn partneriaeth â BBC Cymru a Phrifysgol Bangor.

### Y SECTOR PREIFAT

- Buom yn cydweithio gyda nifer o gwmnïau unigol a chyrff ymbarél i geisio cynyddu defnyddio'r Gymraeg yn y sector.
- Cynhaliwyd y Gwobrau Dylunio Dwyieithog am y pumed tro.
- Noddwyd categorïau Y Gymraeg mewn Busnes yng ngwobrau busnes y Western Mail a'r Daily Post.
- Noddwyd Brecwast Busnes Gŵyl Wyddoniaeth Wrecsam.

### Y SECTOR CYHOEDDUS

- Cytunwyd 51 Cynllun Iaith Gymraeg newydd.
- Ailstrwythurwyd ein hymwneud â'r sector i roi llawer mwy o bwyslais ar fonitro gweithrediad Cynlluniau Iaith.
- Cwblhawyd dau ymchwiliad i gydymffurfiaeth Cynlluniau Iaith, a chychwynwyd un arall.
- Comisiynwyd, ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad a nifer

- The Scheme to Assimilate Incomers to Llŷn was developed to encourage newcomers to play a full part in the community life of the area.
- Two welcome packs were completed for the south-west and the north-west.
- The website [www.movingtowales.com](http://www.movingtowales.com) was launched to offer information about Wales and the Welsh language.
- For the second year, we held our campaign, Welsh - give it a go! in ten towns across Wales.
- HYSBYS, was launched in partnership with BBC Wales and Bangor University.

### THE PRIVATE SECTOR

- We have been collaborating with a number of individual companies and umbrella bodies to try to increase the use of Welsh in the sector.
- The Bilingual Design Awards were held for the fifth time.
- The Welsh in Business categories in both the Western Mail and Daily Post business awards were sponsored.
- The Business Breakfast at the Wrexham Science Festival was sponsored.

### THE PUBLIC SECTOR

- 51 new Welsh Language Schemes were agreed
- Our dealings with the sector were restructured to place much more emphasis on monitoring the operation of Language Schemes.
- Two inquiries into compliance with Language Schemes were completed, and another was commenced.
- Jointly with the Welsh Assembly Government and several Local

o Awdurdodau Cynllunio Lleol, astudiaeth i ddatblygu methodoleg ar gyfer ystyried y Gymraeg mewn cynllunio gwlad a thref.

- Cwblhawyd arolwg o'r Gymraeg ym myd amaeth.

### PARTNERIAID

- Dyrannwyd dros £4 miliwn mewn grantiau i 37 o sefydliadau.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda'n prif bartneriaid, ar lefel genedlaethol a sirol.
- Parhawyd i gefnogi Urdd Gobaith Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, a'r Mudiad Ysgolion Meithrin.
- Cynhaliwyd a datblygwyd 25 Menter Iaith mewn 18 sir, a buom yn cydweithio gyda nhw ar nifer helaeth o'n prosiectau.

### AR HYD AC AR LED

- Noddwyd amryfal ddigwyddiadau yn yr Eisteddfod Genedlaethol, y Sioe Amaethyddol, Gŵyl y Faenol, ac ati.
- Lansiodd, ar y cyd â Microsoft, Becynnau Rhyngwyneb Iaith i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar gyfrifiaduron.
- Comisiynwyd prosiectau safoni termau yn y meysydd ecoleg, chwaraeon, a mân-werthu.
- Parhawyd i ddatblygu, mewn partneriaeth â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru, strategaeth ar gyfer y proffesiwn cyfieithu.
- Datblygwyd ymwneud y Bwrdd â'r maes cyfieithu peirianyddol.
- Parhawyd i ddadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2001 ar y Gymraeg.
- Dechreuwyd arolwg defnydd iaith Cymru gyfan.

Planning Authorities, a study was commissioned to develop a methodology for considering the Welsh language in town and country planning.

- A review of the Welsh language in agriculture was completed.

### PARTNERS

- Over £4 million in grants was allocated to 37 organisations.
- Regular meetings were held with our major partners, at national and county level.
- We continued to support Urdd Gobaith Cymru, the National Eisteddfod, and the Mudiad Ysgolion Meithrin.
- 25 Mentrau Iaith were maintained and developed in 18 counties, and we co-operated with them on a substantial number of our projects.

### FAR AND WIDE

- Various events were sponsored at the National Eisteddfod, the Royal Welsh Show, the Faenol Festival, etc.
- Jointly with Microsoft, Language Interface Packages were launched to facilitate the use of Welsh on computers.
- Term standardisation projects were commissioned in the fields of ecology, sports and retailing.
- We continued to develop, in partnership with the Association of Welsh Translators and Interpreters, a strategy for the translation profession.
- The Board's involvement with the machine translation field was developed.
- We continued to analyse the results of the 2001 census on the Welsh language.
- A review of language use in the whole of Wales was commenced.



Perswadio rhieni i drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf yw pwrpas Twf. Bydd y cynllun yn bedair oed ym mis Mai 2005, ac mae Cwmni Iaith wedi cwblhau ei flwyddyn gyntaf o'r ail gytundeb i weithredu'r cynllun. Gwneir hynny mewn sawl dull a modd, gan ddefnyddio rhwydwaith o staff sy'n gweithio'n benodol arno. Mae'r rhain yn cynnwys swyddog datblygu cenedlaethol, nifer o swyddogion maes a leolir ledled Cymru, a swyddogion arbenigol eraill. Prif nod strategol Twf yw gwireddu un o bum targed allweddol iaith Pawb ar gyfer 2011, sef **'bod cynnydd yng nghanran y teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith sgwrsio/cyfathrebu rhwng oedolion a phlant ar yr aelwyd'**.



The purpose of Twf is to persuade parents to transfer the language to the next generation. The scheme will be four years old in May 2005, and Cwmni Iaith has completed its first year of the second contract to operate the scheme. This is done in a variety of ways, using a network of staff who work specifically on the scheme. These include a national development officer, a number of field officers located across Wales and other specialist officers. The main strategic aim of Twf is to realise one of the five key targets of Iaith Pawb for 2011, namely **'that there should be an increase in the percentage of families where the Welsh language is the main conversation/communication language between adults and children in the home.'**

Gwaith craidd y swyddogion maes yw cysylltu gyda rhieni newydd a darpar rieni er mwyn cynnig cyngor a chefnogaeth ar drosglwyddo'r iaith. Mae'r tîm brwdfrydig hwn yn cynnal sesiynau gyda grwpiau bach, neu'n unigol gyda rhieni, yn aml mewn partneriaeth â bydwragedd ac ymwelwyr iechyd lleol. Maen nhw hefyd yn cymryd rhan mewn llu o ddigwyddiadau cymunedol er mwyn hyrwyddo'r cynllun, ac mae ymateb y cyhoedd yn hynod o gadarnhaol bob tro.

Yn ystod y cyfnod, parhaodd y bartneriaeth ag S4C. Llwyddwyd i rannu ein neges gyda bron i 40,000 o blant a'u teuluoedd a ddaeth i weld Sioe Aeof Planed Plant Bach ym mis Rhagfyr 2004. Wrth i'r plant gael eu diddanu'n Gymraeg gan Siôn Corn, câi'r rhieni gyfle i sgwrsio gyda swyddogion maes,

The core work of the field officers is to contact new parents and prospective parents in order to offer advice and support on transferring the language. This enthusiastic team holds sessions with small groups, or individually with parents, often in partnership with local midwives and health visitors. They also take part in a large number of community events in order to promote the scheme, and the response of the public is always very positive.

During the period, the partnership with S4C continued. We succeeded in sharing our message with almost 40,000 children and their families who came to see the Planed Plant Bach Winter Show in December 2004. As the children were entertained in Welsh by Father Christmas, the parents had an



Adnoddau Twf  
Twf resources



a derbyn gwybodaeth am yr adnoddau i'w helpu i siarad Cymraeg gyda'u plant. Hefyd trefnwyd sioe Triongl yn Sir Gaerfyrddin ym mis Mawrth 2005, mewn cydweithrediad â'r Mentrau Iaith lleol, a daeth tua 3,000 o blant i'w gwyllo.

Mae deunyddiau Twf yn parhau i helpu codi proffil y cynllun. Dosbarthwyd 15,000 o becynnau Twf yn ystod Sioe Groto S4C, ac ymysg cylchoedd meithrin ac ymwelwyr iechyd ar draws y wlad. Ers i Twf lansio'r cardiau sgan ym mis Hydref 2004, mae tua 20,000 wedi'u dosbarthu ar draws y wlad, trwy ymwelwyr iechyd yn y de, a thrwy unedau sganio yn y gogledd. Mae'r lluniau bellach yn cael eu cyflwyno i'r rhieni mewn casyn arbennig gyda gwybodaeth am Twf arno.

Lansiwyd ein gwefan [www.twfcymru.com](http://www.twfcymru.com) ddiwedd 2004. Ei phwrpas yw codi ymwybyddiaeth am fanteision dwyieithrwydd

opportunity to talk with field officers, and receive information about the resources to help them speak Welsh with their children. Also the Triongl show was arranged in Carmarthenshire in March 2005, in co-operation with the local Mentrau Iaith, and approximately 3,000 children came to watch.

Twf's materials are continuing to help raise the profile of the scheme. 15,000 Twf packs were distributed during the Sioe Groto S4C, and among nursery groups and health visitors throughout the country. Since Twf launched the scan cards in October 2004, approximately 20,000 have been distributed across the country, through health visitors in the south and scanning units in the north. The pictures are now being presented to the parents in a special case with information about Twf on it.

Our website [www.twfcymru.com](http://www.twfcymru.com) was launched at the end of 2004. Its purpose is to raise awareness of the advantages of bilingualism and it has already proved popular, not only with parents across Wales, but also with Welsh



ac mae hi wedi profi'n boblogaidd yn barod, nid yn unig gyda rhieni ar draws Cymru, ond hefyd gyda Chymry alltud. Yn ogystal â gwybodaeth am fagu plant yn ddwyieithog, mae'r wefan yn cynnwys gemau ac adnoddau ymarferol eraill i ymarfer eich Cymraeg gyda'ch plentyn, ac i rannu eich profiadau gyda rhieni eraill.

Hefyd yn ystod y cyfnod, ar ôl proses dendro agored, comisiynwyd Adran Nyrzio a Bydwreigiaeth Prifysgol Cymru, Bangor i astudio dros dair blynedd effaith Twf o ran newid iaith mewn teuluoedd. Cychwynnodd y tîm ar ei waith ddechrau Mawrth 2005.

people who live elsewhere. As well as information about bringing children up bilingually, the website includes games and other practical resources to practise your Welsh with your child, and to share your experiences with other parents.

Also during the period, following an open tendering process, the Nursing and Midwifery Department at the University of Wales, Bangor was commissioned to study over three years, the effects of Twf as regards changing language within families. The team commenced its work in March 2005.

## Gwobrau Dylunio Dwyieithog 2005 Bilingual Design Awards List of Winners

### Categori Hyrwyddo\_ Promotions Category

Sgrîn Cymru ac \_and Elfen

### Categori Hysbysebu\_ Advertising Category

SC4 a \_and Departures

### Categori Pecynnu Bwyd a Diod\_ Food and Drink Packaging Category

Y Cwmni Wisgi Cymreig\_ The  
Welsh Whisky Company  
ac \_and Enterprise IG

### Categori Paneli Arddangos\_ Display Panels Category

Llyfrgell Genedlaethol Cymru\_  
The National Library of  
Wales a \_and FBA

### Categori Brand Cymreig\_ Welsh Brand Category

Artes Mundi – Amgueddfa  
Genedlaethol Cymru\_ Artes  
Mundi – National Museum of  
Wales a \_and The Info Group

### Categori Cyfryngau Newydd\_ New Media Category

Ymddiriedolaeth Ynys Enlli\_  
Bardsey Island Trust a \_and  
Wiss Ltd

### Dylunydd y Flwyddyn\_ Designer of the Year

Y Cwmni Wisgi Cymreig\_  
The Welsh Whisky Company  
a \_and Enterprise IG





## ADDYSG EDUCATION

Dwy ffordd sydd i ddod yn siaradwr Cymraeg: dysgu'r iaith gartref drwy gyfrwng y teulu, neu ei dysgu drwy addysg, yr ysgol, a dysgu gydol oes. Yr ail gyfrwng sydd yn bennaf cyfrifol am y cynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ymysg plant oed ysgol dros y degawdau diweddar. Ac mae'r mwyafrif yn credu mai'r blynyddoedd cynnar yw'r cyfnod rhwyddaf i gaffael iaith ynddo. Mae iaith Pawb yn rhoi'r pwys mwyaf ar hyn i gyd drwy gynnwys fel un o'r pum targed allweddol ar gyfer 2011 **'cynnydd yng nghanran y plant sy'n derbyn addysg cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg'**.

Bellach mae Cynlluniau Addysg Gymraeg gwreiddiol yr holl Awdurdodau Addysg Lleol yn weithredol, ac mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo i gymeradwyo ail gyfres o Gynlluniau.

There are two ways to become a Welsh speaker: learning the language at home through the family, or learning it through education, the school, and lifelong learning. The second of these is mainly responsible for the substantial increase in the number of Welsh speakers among school age children over the last few decades. And the majority believes that the early years is the easiest period for acquiring language. Iaith Pawb places great emphasis on all this, by including as one of the five key targets for 2011 **'an increase in the percentage of children receiving pre-school education through the medium of Welsh'**.

By now the original Welsh Education Schemes of all the Local Education Authorities are operational, and the work to approve the second series of Schemes is continuing. During the reporting

Yn ystod y cyfnod adrodd, derbyniodd pedwar awdurdod lleol gymeradwyaeth y Bwrdd i'w hail Gynllun Addysg (Penfro, Dinbych, Gwynedd a Môn). Hefyd cwblhawyd y gwaith o baratoi canllawiau manwl ar gyfer llunio'r Cynlluniau hyn. Wrth i fwy o siroedd lunio eu hail Gynlluniau yn unol â'r canllawiau, y nod fydd datblygu darlun cynhwysfawr o sefyllfa bresennol ac amcanion strategol siroedd ar draws Cymru.

Parhaodd gwaith statudol y Bwrdd i gytuno Cynlluniau Iaith gyda sefydliadau Addysg Bellach, Addysg Uwch a chyrff addysgol eraill, a monitro'r Cynlluniau hynny. Erbyn diwedd 2005, bydd y Bwrdd wedi cymeradwyo Cynlluniau Iaith gyda phob sefydliad Addysg Uwch sydd yng Nghymru.

Unwaith eto, yn 2004-05, dyrannwyd grantiau i'r athrawon bro a chyfrannwyd at ddatblygiad y gwasanaeth yn yr awdurdodau addysg lleol. Cyfrannwyd eto at waith Canolfan i Hwyrddyfodiad oedran uwchradd yng Ngwynedd, menter newydd sydd wedi gweld datblygiadau cyffrous. Ymhlith y gweithgareddau eraill a ariannwyd oedd prosiect llawn egni yn Awdurdod Addysg Conwy. Drwy gynllun 'Chwit Chwat' aeth disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ysgolion y sir ati i holi neiniau a theidiau a rhieni am y gemau a arferai gael eu chwarae ar iard yr ysgol. Dan arweiniad y tîm athrawon bro, aethpwyd ati i gofnodi a dysgu'r gemau hyn, a bellach gwelir disgyblion ysgolion Conwy yn mwynhau'r gemau, cadw'n heini ac ymarfer eu patrymau iaith yr un pryd. Mae manylion pellach am y grantiau hyn yn Atodiad 2.

period, four local authorities received the approval of the Board for their second Education Scheme (Pembroke, Denbigh, Gwynedd and Anglesey). Also, the work of preparing detailed guidelines for drawing up these Schemes was completed. As more counties formulate their second Schemes in accordance with the guidelines, the aim will be to develop a comprehensive picture of the present situation and the strategic objectives of the counties across Wales.

The Board's statutory work to agree Language Schemes continued with Further Education, Higher Education establishments and other education bodies, together with the monitoring of those Schemes. By the end of 2005, the Board will have approved Language Schemes with every Higher Education establishment in Wales.

Once again, in 2004-05, grants were allocated to the 'athrawon bro' (community teachers) and a contribution was made to the development of the service in the local education authorities. A further contribution was made towards the work of the Centre for Latecomers of secondary school age in Gwynedd, a new venture that has seen exciting developments. Among the other activities funded was an energetic project in Conwy Education Authority. Through the 'Chwit Chwat' scheme, pupils from Key Stage 2 in the county's school questioned their grandparents and parents about the games that used to be played on the school yard. Under the leadership of the 'athrawon bro' team they set about recording and learning these games, and school pupils in Conwy can now be



Gwelodd 2004-05 ddatblygiadau diddorol hefyd wrth i'r Cynllun Peilot ar Addysgu'r Gymraeg drwy ddulliau trochi gael ei roi ar waith. Mae'r Cynllun Peilot yn cael ei gynnal gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn cydweithrediad â Llywodraeth y Cynulliad. Ei nod yw ystyried a gwerthuso'r posibiladau o ran cynnig addysg cyfrwng Cymraeg, neu gynnig gwersi Cymraeg dwys, i ddisgyblion na ddewisodd y math hwn o addysg wrth gychwyn yr ysgol yn dair neu'n bump oed. Yn ystod tymor yr haf 2004 cynhaliwyd tri phrosiect peilot i gyflwyno'r Gymraeg drwy ddulliau dwys i grwpiau o ddisgyblion Blwyddyn 6 mewn tair ardal: Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug, dalgylch Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun, ac Ysgol Gymunedol y Porth, y Rhondda. Ymunodd Ysgol Gynradd Glan Conwy â'r cynllun yn nhymor yr hydref 2004, y tro hwn i gyflwyno'r Gymraeg i ddisgyblion Blwyddyn 3.

seen enjoying the games, keeping fit and practising their language patterns at the same time. Further details of these grants can be seen in Annex 2.

2004-05 saw interesting developments also as the Pilot Scheme on Teaching Welsh through immersion methods was implemented. The Pilot Scheme is being run by the Welsh Language Board in co-operation with the Welsh Assembly Government. Its aim is to consider and evaluate the possibilities as regards offering Welsh medium education, or offering intensive Welsh lessons, to pupils who did not choose this kind of education when starting school at the age of three or five. During the summer term 2004, three pilot projects were held to introduce Welsh through intensive methods to groups of Year 6 pupils in three areas: Ysgol Maes Garmon, Mold, the catchment

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ym mis Tachwedd 2004 a mis Mawrth 2005 er mwyn marchnata gwerth sgiliau galwedigaethol dwyieithog. Gwahoddwyd myfyrwyr blwyddyn 11 a 12 ysgolion uwchradd y de-ddwyrain a'r gogledd-orllewin i'r digwyddiadau hyn i ddysgu mwy am y ffordd y gall y Gymraeg fod o fantais iddyn nhw mewn meysydd gwaith fel y Gyfraith, addysg, byd busnes a'r cyfryngau.

area of Ysgol Brynhyfryd, Ruthin, and Porth Community School, Rhondda. Ysgol Gynradd Glan Conwy joined the scheme in the autumn term 2004, this time to introduce Welsh to Year 3 pupils.

Two events were held in November 2004 and March 2005 in order to market the value of bilingual vocational skills. Year 11 and 12 students from secondary schools in the south-east and north-west were invited to these events to learn more about the way the Welsh language can be advantageous to them in fields of work such as the Law, education, business and the media.

**Angen cymorth gyda'r Gymraeg?**

Os hoffech wybodaeth am:

- gyfieithiadau byrion
- golgu darnau byrion
- bwydenni Cymraeg
- Cymru a'r Gymraeg
- enwau lleoliad

Defnyddwch y Llinell Gyswllt yn rhad ac am ddim.

**Need help with Welsh?**

If you need information about:

- short translations
- editing of text
- menus in Welsh
- places and the Welsh language
- place names

Use the free service provided by the Linkline to Welsh

**LLINELL GYSWLLT - LINKLINE TO WELSH**  
**0845 6076070**  
 gyfnewidiadau yr wythnos: 0845 6076070  
 Llun - Swyddwr: Tam - Sgm, Mawrth - Ffriddeg

**SWROD YR IAITH GYMRAEG - WELSH LANGUAGE BOARD**

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk | www.welsh-language-board.org.uk

Gwasanaeth y Llinell Gyswllt  
The Linkline to Welsh service



## POBL IFANC YOUNG PEOPLE

Dywed Iaith Pawb: **'Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol iawn, os yw'r Gymraeg yn mynd i ffynnu, fod angen i bobl ifanc yn enwedig ddatblygu ymdeimlad o berchnogaeth o'r iaith a'i gweld fel eu hiaith hwy ac nid iaith yr ysgol a diwylliant yn unig.'** Ac mae'r Bwrdd hefyd yn parhau i roi rhagor o flaenoriaeth i ieuencid yn ei waith. Rhoddir grantiau i'r Urdd, Gwobr Dug Caeredin, a Ffermwyr Ifanc Eryri a Meirionnydd yn benodol tuag at gynyddu cyfleoedd cymdeithasol pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae partneriaid eraill y Bwrdd hefyd yn rhoi llawer iawn o bwyslais ar bobl ifanc, gan gynnwys y Mentrau Iaith a'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn ogystal â'r grantiau, mae prosiectau newydd wedi'u datblygu ymhellach ac rydym ar ganol llunio Strategaeth Ieuencid uchelgeisiol. Un o amcanion y Strategaeth fydd rhoi

Iaith Pawb states: **'The Assembly Government is very much aware that if the language is going to flourish, young people especially need to develop a feeling of ownership of the language and to see it as their language and not the language of the school and of culture only.'** And the Board also continues to give young people priority in its work. Grants are given to the Urdd, Duke of Edinburgh Award and Eryri and Meirionnydd Young Farmers specifically towards increasing social opportunities for young people to use the Welsh language. The Board's other partners also place a great deal of emphasis on young people, including the Mentrau Iaith and the National Eisteddfod. As well as the grants, new projects have been developed further and we are currently drawing up an ambitious Youth Strategy. One of the objectives of the Strategy will

syllw mawr i anghenion a hawliau pobl ifanc yng nghyswllt y Gymraeg er mwyn iddyn nhw allu derbyn y cyfleoedd a'r gwasanaethau maen nhw'n eu dymuno yn eu dewis iaith. Caiff ei chyhoeddi yn haf 2005.

Bu'n gyfnod prysur o ddatblygu'r cynlluniau i hybu defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r iaith drwy hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg. Adeiladwyd ar lwyddiant Taith Popty 2003 drwy gynnal Taith Popty C2 mewn cydweithrediad â BBC Cymru ac S4C yn ystod hydref 2004. Taith chwech wythnos mewn ysgolion ar draws Cymru oedd hon, gyda pherfformiadau byw gan artistiaid Cymraeg blaenllaw ynghyd â chyfres o weithdai DJ gyda chyflwynwyr BBC Radio Cymru. Cyrhaeddwyd cynulleidfa o dros 15,000 ac fe dderbyniwyd ymateb cadarnhaol dros ben oddi wrth bobl ifanc, ysgolion a phartneriaid megis y Mentrau Iaith.

be to give a great deal of attention to the rights of young people in the context of the Welsh language so that they can receive the opportunities and services they desire in their chosen language. It will be published in the summer of 2005.

It has been a busy period of developing the schemes to promote young people's social use of the language by promoting Welsh music. We built upon the success of Taith Popty 2003 by holding Taith Popty C2 in co-operation with BBC Wales and S4C in autumn 2004. This was a six week tour in schools across Wales, with live performances by leading Welsh artists together with a series of DJ workshops with BBC Radio Cymru presenters. We reached an audience of over 15,000 and a very positive response was received from the young people, schools and partners such as the Mentrau Iaith.



Datblygwyd ymhellach y Prosiect Cerddoriaeth Gymraeg Gymunedol sy'n cael ei weithredu gan Cerdd Gymunedol Cymru. Mae hon hefyd yn bartneriaeth gyda BBC Cymru ac S4C sy'n cynyddu gweithgaredd cymunedol drwy gynnal gweithdai roc, cyfres o gigs mewn ardaloedd targed, a chyrsgiau i hyfforddi cerddorion a hyrwyddwyr digwyddiadau Cymraeg. Mae llawer iawn o'r digwyddiadau mewn partneriaeth â'r Mentrau Iaith lleol, mewn ardaloedd megis Caernarfon, Bangor, Llangollen, Aberaeron, Rhydaman ac Abertawe.

Parhaodd y gwaith o gryfhau'r berthynas gyda Chlybiau Ffermwyr Ifanc drwy weithio gyda siroedd Clwyd, Maldwyn a Phenfro a datblygu perthynas o'r newydd gyda Môn a Sir Gâr. Mae'r gweithgareddau a gefnogwyd fel rhan o'r prosiect yn cynnwys hyfforddiant ar faterion ieithyddol i swyddogion y Clybiau, trefnu sesiynau cefnogol i ddysgwyr, sefydlu Clybiau newydd cyfrwng Cymraeg yng Nghorwen a Dyserth, a hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg mewn nosweithiau cymdeithasol.

There was further development of the Welsh Community Music Project which is run by Community Music Wales. This is also a partnership with BBC Wales and S4C which increases community activity by holding rock workshops, a series of gigs in target areas, and training courses for musicians and promoters of Welsh events. Many of the events are in partnership with the local Mentrau Iaith, in areas such as Caernarfon, Bangor, Llangollen, Aberaeron, Ammanford and Swansea.

The work of strengthening the relationship with Young Farmers' Clubs continued by working with the counties of Clwyd, Montgomeryshire and Pembrokeshire and developing a new relationship with Anglesey and Carmarthenshire. The activities supported as part of the project include training on linguistic matters for officers of the Clubs, arranging support sessions for Welsh learners, establishing new Welsh-medium Clubs in Corwen and Dyserth, and promoting Welsh music in social evenings.

## Y GYMUNED THE COMMUNITY

Mae Iaith Pawb yn cydnabod fod iechyd yr iaith ar lefel gymunedol yn greiddiol i'w dyfodol, ac un o'r targedau allweddol ar gyfer 2011 yw sicrhau fod **'y lleihad yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70% o'r boblogaeth yn cael ei atal'**. Gwneir hyn yn bennaf drwy gefnogi gwaith y Mentrau Iaith drwy grant, a thrwy gynnal yn uniongyrchol Gynlluniau Gweithredu Iaith mewn 11 wahanol ardal, ynghyd â'r Cynllun Cymathu Mewnfudwyr yn Llŷn.

### Cynlluniau Gweithredu Iaith

Nod y Cynlluniau Gweithredu Iaith (CGI) yw cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig drwy sefydlu a chydlynu partneriaeth ddeinamig o wirfoddolwyr lleol a sefydliadau sy'n gweithio yn yr ardal. Sefydlwyd y CGI cyntaf yn Abergwaun yn 2002.

Iaith Pawb acknowledges that the health of the language on a community level is vital to its future, and one of the key targets for 2011 is to ensure that **'the reduction in the number of communities where the Welsh language is spoken by over 70% of the population is stemmed'**. This is done mainly by supporting the work of the Mentrau Iaith through grants and by directly maintaining Language Action Plans in 11 different areas, together with the Scheme to Assimilate Incomers to Llŷn.

### Language Action Plans

The aim of the Language Action Plans (LAP) is to increase the community use of the Welsh language in areas of special linguistic significance by establishing and co-ordinating a dynamic partnership of local





volunteers and organisations working in the area. The first LAP was established in Fishguard in 2002.

One of the priorities for this year was to respond to the results of an independent Evaluation commissioned last year to assess the way in which the LAP have developed. The Evaluation confirmed that the LAP have developed effectively under the management of the Board and that there are signs that they are having an effect on the use of the Welsh language in their areas. An Action Plan has been drawn up to tackle the recommendations in the Evaluation. As part of this, different areas are experimenting with new methods of promoting the involvement of volunteers and assessing the influence of local events as a result of every activity.

In the north, much attention was given to the development of new LAP in three areas this year, in Machynlleth, Bangor and Amlwch. Also, the profile of the work in the Pwllheli, Llanrwst, Ruthin and Corwen areas was successfully raised. Pwllheli and Llanrwst are a hive of contemporary cultural activities, whilst efforts are bearing fruit in the Ruthin and Corwen areas by gaining the support of local parents and Welsh learners.

In the south-west, it was a year of embedding ourselves anew in Fishguard, Cardigan and Ammanford. New volunteers were attracted to the Fishguard committee. The committee in

Yn y de-orllewin, bu'n flwyddyn o fwrw gwreiddiau o'r newydd yn Abergwaun, Aberteifi a Rhydaman. Denwyd gwirfoddolwyr newydd i bwyllgor Abergwaun. Bu pwyllgor Aberteifi yn weithgar dros ben, yn enwedig wrth drefnu ymgyrch Cymraeg yn Gyntaf. Yn Rhydaman, bu dechrau llwyddiannus iawn i gynllun Disgo Golau Glas, disgo dwyieithog di-alcohol a drefnwyd ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys.

Yn y de-ddwyrain, mae CGI Casnewydd yn targedu ardal arbennig mewn ffordd arbrofol drwy weithio'n agos gydag ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol er mwyn cynnig dilyniant i'r bwrlwm amlwg lleol wrth baratoi a chynnal yr Eisteddfod. Wrth i Eisteddfod Casnewydd agosáu, sefydlwyd nosweithiau Cymraeg rheolaidd yn lleol gan gynnwys gigs, cwisiau a nosweithiau i gefnogi ymdrechion dysgwyr. Yn sgil yr Eisteddfod manteisiwyd ar y gefnogaeth ymhlith busnesau'r ddinas drwy ddsbarthu dros gant o arwyddion dwyieithog i siopau canol y ddinas. Erbyn hyn, mae'r Cynllun yn parhau i ddatblygu mewn partneriaeth agos â Chyngor Dinas Casnewydd.

Cardigan has been very active, especially in organising the Welsh - give it a go! campaign. In Ammanford, there was a very successful start to the 'Disgo Golau Glas', a bilingual alcohol-free disco arranged jointly with Dyfed-Powys Police.

In the south-east, the Newport LAP is targeting a particular area in an experimental way by working closely with the visit of the National Eisteddfod in order to offer a follow-up to the obvious local enthusiasm when preparing and holding the Eisteddfod. As the Newport Eisteddfod drew closer, regular Welsh language evenings were established locally including gigs, quizzes and evenings to support the efforts of Welsh learners. As a result of the Eisteddfod, we took advantage of the support among the businesses of the city by distributing over a hundred bilingual signs to shops in the city centre. By now, the scheme is continuing to develop in close partnership with Newport City Council.

Un o flaenoriaethau eleni oedd ymateb i ganlyniadau Gwerthusiad annibynnol a gomisiynwyd y llynedd i asesu'r modd y mae'r CGI wedi datblygu. Fe gadarnhaodd y Gwerthusiad fod y CGI yn datblygu'n effeithiol o dan reolaeth y Bwrdd a bod arwyddion eu bod yn cael effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hardaloedd. Mae Cynllun Gweithredu wedi'i lunio i fynd i'r afael ag argymhellion y Gwerthusiad. Fel rhan o hyn, mae'r ardaloedd gwahanol yn arbrofi gyda dulliau newydd o hybu cyfranogiad gwirfoddolwyr ac asesu dylanwad digwyddiadau lleol yn sgil pob gweithgaredd.

Yn y gogledd, rhoddwyd llawer o sylw i ddatblygiad CGI newydd mewn tair ardal eleni, ym Machynlleth, Bangor ac Amlwch. Yn ogystal, fe lwyddodd y gwaith yn ardaloedd Pwllheli, Llanrwst, Rhuthun a Chorwen i gynyddu ei broffil. Mae Pwllheli a Llanrwst yn ferw o weithgareddau diwylliant cyfoes, tra bod ymdrechion yn dwyn ffrwyth yn ardaloedd Rhuthun a Chorwen wrth ennyn cefnogaeth rhieni a dysgwyr lleol.





### Cynllun Cymathu Mewnfudwyr Llŷn

Cynllun yw hwn ym Mhen Llŷn sy'n rhoi cyfle i swyddogion iaith cymunedol ddefnyddio eu gwybodaeth leol er mwyn croesawu a chynghori newydd-ddyfodiaid ar faterion ieithyddol a diwylliannol. Y bwriad yw annog newydd-ddyfodiaid i gymryd rhan lawn ym mywyd cymdeithasol cymunedau Llŷn drwy ddysgu a pharchu'r iaith Gymraeg. Cyflogwyd tri swyddog yn ystod y cyfnod, a bu dros 50 o newydd-ddyfodiad yn rhan o raglen groesawu'r cynllun.

### Scheme to Assimilate Incomers to Llŷn

This is a scheme on the Llŷn Peninsula which affords an opportunity for community language officers to use their local knowledge to welcome and advise newcomers on linguistic and cultural matters. The intention is to encourage newcomers to play a full part in the social life of the communities in Llŷn by learning and respecting the Welsh language. Three officers were employed during the period, and over 50 incomers were part of the scheme's welcome programme.

together

gyda'n  
gilydd

### Y Pecyn Croeso – Symud i Gymru

Cynhyrchwyd dau becyn cynhwysfawr ar gyfer y de-orllewin a'r gogledd-orllewin. Yn ychwanegol i'r pecynnau, cynhyrchwyd saith taflen sirol i'w dosbarthu'n uniongyrchol gan yr arwerthwyr tai wrth anfon manylion eu tai i bobl y tu allan i Gymru. Mae cydweithrediad yr arwerthwyr tai hyn i ddosbarthu gwybodaeth am eu cymunedau wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Hefyd, mae'r wefan [www.symudigymru.com](http://www.symudigymru.com) bellach yn weithredol. Mae hon yn cynnwys gwybodaeth helaeth am Gymru, ei hiaith a'i diwylliant, a chynghor ar ymdoddi'n llawn i'r gymuned.

### Cymraeg yn Gyntaf

Dyma ail flwyddyn yr ymgyrch hon, a gynhaliwyd eleni ym mis Mawrth 2005 mewn deg tref (tair yn fwy na'r llynedd): Y Tymbl, Rhydaman, Abergwaun, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Machynlleth, Bangor, Llangefni, Llanrwst, a Rhuthun. Pwrpas yr ymgyrch hon yw annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd ar fywyd drwy roi cyfle i sefydliadau gyhoeddi eu bod yn darparu gwasanaethau Cymraeg, a thrwy helpu i'r cyhoedd deimlo'n hyderus i ofyn am y gwasanaethau hynny a'u defnyddio. Bu cydweithio agos rhwng y Bwrdd, y Cynlluniau Gweithredu Iaith, a'r Mentrau Iaith i sicrhau llwyddiant yr ymgyrch. Rydym yn amcanu fod bron i 10,000 o bobl a thua 250 o fusnesau wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r ymgyrch eleni.

### The Welcome Pack – Moving to Wales

Two comprehensive packs were produced for the south-west and the north-west. As well as the packs, seven county leaflets were produced to be distributed directly by estate agents when sending details of their properties to people from outside Wales. The co-operation of these estate agents in distributing information about their communities has been very positive. Also, the website [www.movingtowales.com](http://www.movingtowales.com) is now operational. This includes extensive information about Wales, its language and culture, and advice on assimilating fully with the community.

### Welsh - give it a go!

This is the second year of this campaign, held this year in March 2005 in ten towns (three more than last year): Tumble, Ammanford, Fishguard, Cardigan, Lampeter, Machynlleth, Bangor, Llangefni, Llanrwst, and Ruthin. The purpose of this campaign is to encourage Welsh speakers to use the language in all aspects of life by giving organisations the opportunity to announce that they offer services in Welsh, and by helping the public to feel confident in asking for those services and using them. There has been close co-operation between the Board, the Language Action Plans and the Mentrau Iaith to ensure the campaign's success. We estimate that almost 10,000 people and approximately 250 businesses were directly involved with the campaign this year.



## Y SECTOR PREIFAT THE PRIVATE SECTOR

Un o brif amcanion Iaith Pawb yw ysgogi cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ac yn ei hamlygrwydd ymhob agwedd ar fywyd pob dydd. Un o bum targed allweddol y ddogfen ar gyfer 2011 yw ei gwneud hi'n bosibl **'i gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ddarparu mwy o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg'**.

Yn ein gwaith gyda'r sector, y nod yw treiddio i galon byd masnach, a siarad wyneb yn wyneb â busnesau yn hytrach na gweithio ar ganllawiau a chyfarwyddiadau o bell. I'r perwyl hwn, bu'r pwyslais eleni eto ar gydweithio gyda busnesau allan yn y maes, gan ganolbwyntio ein hymdrechion yn arbennig ar gyrff sydd â nifer o fusnesau o dan eu hadain.

One of the main objectives of Iaith Pawb is to encourage an increase in the use of the Welsh language and in its prominence in all aspects of everyday life. One of the five key targets of the document for 2011 is to make it possible **'for public, private and voluntary bodies to provide more services through the medium of Welsh'**.

In our work with the sector, the aim is to get to the heart of the business world and talk face to face with businesses, rather than working on guidelines and instructions from a distance. To this end, the emphasis again this year has been on co-operating with businesses out in the field, and concentrating our efforts in particular on bodies that have a number of businesses under their wing.

Yn ystod y cyfnod, cyfarfu'r Bwrdd â nifer helaeth o gwmnïau, yn aml iawn drwy gydweithio â chyrff ymbarél, sy'n cynnig ffordd effeithiol i ni gyrraedd cynulleidfaoedd sylweddol. Dyma rai o'r cyrff y buom yn cydweithio â nhw: Fforwm Canolfannau Cyswllt Cymru, Cyllid Cymru, Cyfle Cymru a'r ICAEW (Corff Cydlynw Cyfrifwyr Siartredig Lloegr a Chymru), a siambrau masnach ledled y wlad.

Ym mis Ionawr 2005, anerchodd y Bwrdd dros 200 o fusnesau'r de-ddwyrain yng nghinio Siambr Masnach Caerdydd ar fanteision defnyddio'r Gymraeg mewn busnes. Cawsom drafodaethau dros frewast gyda rhyw gant o fusnesau'r gogledd-ddwyrain hefyd, wrth noddi Brecwast Busnes Gŵyl Wyddoniaeth Wrecsam eleni. Rydym yn parhau i noddi categorïau **Y Gymraeg mewn Busnes** yng ngwobrau busnes y Western Mail a'r Daily Post, dau achlysur sy'n mynnu cryn sylw ymysg cymunedau busnes Cymru.

Buom yn cydweithio gyda nifer o arweinwyr y farchnad yng Nghymru, yn eu plith Wisgi Penderyn, Cadog, HSBC a BT. Tu hwnt i'r ffin, buom wrthi'n targedu pencadlysoedd y cwmnïau hynny sy'n weladwy iawn yma. Er enghraifft, buom yn gweithio'n agos gyda Boots ac archfarchnadoedd Somerfield a Morrisons i'w helpu i gymreigio eu canghennau ledled y wlad, a chyda chwmni Trenau Virgin, ar gynyddu ei ddefnydd o'r Gymraeg.

During the period, the Board met a substantial number of companies, often through co-operation with umbrella bodies, which offer us an effective way of reaching a substantial audience. Here are some of the bodies that we have co-operated with: Wales Contact Centre Forum; Finance Wales; Opportunity Wales and ICAEW (The Institute of Chartered Accountants England and Wales) and chambers of commerce across the country.

In January 2005, the Board addressed over 200 businesses from the south-east at the Cardiff Chamber of Commerce dinner, on the advantages of using Welsh in business. We held discussions over breakfast with approximately a hundred businesses from the north-east too, as we sponsored the Business Breakfast at the Wrexham Science Festival. We continue to sponsor the **Welsh in Business** categories in the Western Mail and the Daily Post business awards, two events that command considerable attention among the business communities in Wales.

We collaborated with a number of market leaders in Wales, among them Penderyn Whisky, Cadog, HSBC and BT. Over the border, we targeted the headquarters of those companies that are very visible here. For example, we worked closely with Boots and supermarkets Somerfield and Morrisons to help them make their branches across the country more Welsh, and with Virgin Trains, on increasing their use of the Welsh language.



## Y SECTOR CYHOEDDUS THE PUBLIC SECTOR

Mae'r adran hon yn ymwneud yn bennaf â phrif swyddogaeth statudol benodol y Bwrdd, sef cadw gorolwg dros baratoi a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg a darpariaeth gwasanaethau dwyieithog.

### Cynlluniau Iaith Gymraeg

Rydym bellach wedi cytuno dros 300 o Gynlluniau Iaith gydag ystod o gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat. Cytunwyd pum deg un Cynllun Iaith yn 2004-05, o gynghorau tref a chymuned i gyrff megis yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae rhestr gyflawn o'r rhain yn Atodiad 3. Fodd bynnag, mae pwyslais ein gwaith bellach yn symud o gytuno cynnwys cynlluniau i fonitro eu gweithrediad. Yn benodol, rydym yn canolbwyntio ar sut mae cyrff yn prifffrydio'r Gymraeg i bob agwedd ar eu gwaith, ac yn benodol felly yr agweddau

This section deals mainly with the main specific statutory function of the Board, which is to oversee the preparation and operation of Welsh Language Schemes and the provision of bilingual services.

### Welsh Language Schemes

By now, we have agreed over 300 language schemes with a range of public, voluntary and private bodies. Fifty-one Language Schemes were agreed in 2004-05, from town and community councils to bodies such as the Department for Work and Pensions. A full list of these can be found at Annex 3. However, the emphasis of our work is now moving from agreeing the contents of schemes to monitoring their operation. Specifically, we are concentrating on how bodies mainstream Welsh in all aspects of their work, and specifically those aspects that

hynny sydd fwyaf pwysig i'r cyhoedd. Byddwn hefyd am ganolbwyntio ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg fel sgil yn y maes recriwtio; cynyddu defnyddio'r Gymraeg o fewn y gweithle, yn ogystal â marchnata gwasanaethau cyhoeddus cyfrwng Cymraeg i'r cyhoedd.

Mae'r Bwrdd yn fwy na pharod i ddefnyddio ei bwerau i sicrhau gweithrediad Cynlluniau Iaith. Fe gynhaliwyd ymchwiliadau statudol yn 2004-05 i gydymffurfiaeth Cyngor Sir y Fflint a Choleg Sir Gâr â'u cynlluniau iaith. Deilliodd ymchwiliad Cyngor Sir y Fflint yn dilyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd a dderbyniodd ffurflenni treth y Cyngor yn uniaith Saesneg, yn groes i'w Gynllun Iaith. Ymatebodd y Cyngor mewn dull cadarnhaol i argymhellion y Bwrdd. Cynhaliodd y Bwrdd ymchwiliad i weithrediad Coleg Sir Gâr o'i Gynllun Iaith pan ddaeth yn amlwg nad oedd y Coleg yn cwrdd â nifer o'r targedau a osododd i'w hun. Mae'r Bwrdd bellach wedi cyflwyno rhestr o argymhellion i'w gweithredu gan y Coleg.

Mae'r Bwrdd yn parhau â'i ymchwiliad i benderfyniad Cyngor Sir Caerfyrddin i hysbysebu swydd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, heb nodi unrhyw ofynion mewn perthynas â sgiliau cyfathrebu dwyieithog yn yr hysbyseb. Byddwn yn adrodd ar ganlyniadau'r ymchwiliad yn hwyrach yn y flwyddyn.

Caiff gweithredu Cynlluniau Iaith ei feirniadu'n aml am fethu â sicrhau bod y defnyddiwr yn gallu cael gwasanaeth prydlon ac effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn gynyddol yn canolbwyntio ar weithrediad Cynlluniau

are most important to the public. We also intend to focus on the consideration given to the Welsh language as a skill in the recruitment field; to increase the use of Welsh in the workplace, as well as to market Welsh medium public services to the general public.

The Board is more than willing to use its powers to ensure the implementation of Language Schemes. Statutory inquiries were carried out in 2004-05 into the compliance of Flintshire County Council and Carmarthenshire College with their language schemes. The Flintshire Council inquiry arose following a complaint by a member of the public who received Council Tax forms in English only, contrary to their Language Scheme. The Council responded in a positive way to the recommendations of the Board. The Board carried out an inquiry into the way Carmarthenshire College operated its Language Scheme when it became obvious that the college was not meeting a number of the targets it had set for itself. The Board has now submitted a list of recommendations to be implemented by the College.

The Board continues with its investigation into Carmarthen County Council's decision to advertise the post of Director of Education and Children's Services, without noting any requirements in respect of bilingual communication skills in the advertisement. We will report on the results of the investigation later on in the year.

The implementation of Language Schemes is often criticised for failing to ensure that the user can obtain



laith i sicrhau eu bod yn ateb gofynion a disgwyliadau defnyddwyr am wasanaethau cyfrwng Cymraeg.

### Cyfle Cyfartal

Mae'r Bwrdd yn un o'r gwahoddedigion sefydlog ar Bwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Un o brif weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd cyhoeddi adroddiad ar brif-ffrydio cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Bwrdd bellach yn ceisio sicrhau y bydd Grŵp arbennig a sefydlwyd gan y Cynulliad yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg, fel un o'r meysydd cydraddoldeb, wrth iddo baratoi Strategaeth Prif-ffrydio mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor. Mae'r Bwrdd hefyd wedi bod yn cynghori'r Llywodraeth yng nghyswllt ei gynlluniau i sefydlu Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

timely and effective service through the medium of Welsh. We will increasingly be concentrating on the operation of the Language Schemes to ensure that they respond to the requirements and expectations of users in respect of Welsh medium services.

### Equal Opportunity

The Board is one of the standing invitees on the National Assembly for Wales' Equal Opportunity Committee. One of the main activities of the Committee during the year was to publish a report on mainstreaming equality in the work of the National Assembly. The Board is now seeking to ensure that a special Group established by the Assembly gives full consideration to the Welsh language as one of the equality fields, as it prepares a Mainstreaming Strategy in response to the Committee's report. The Board has also been advising the Government in respect of its plans to establish an Equality and Human Rights Commission.

### Cynllunio Gwlad a Thref

Wedi i'r Bwrdd gyflwyno sylwadau manwl i Ymchwiliad Cynllun Datblygu Unedol Ceredigion yn 2004-05, pwysleisiodd y Cyngor yr angen i gael methodoleg cytûn ar sut y dylid ystyried y Gymraeg fel rhan o'r broses gynllunio. Mae'r Bwrdd eisioes wedi comisiynu astudiaeth ar y cyd â Llywodreth y Cynulliad a nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddatblygu methodoleg ar gyfer y maes pwysig hwn, fel y bydd gan awdurdodau arweiniad mwy pendant yn y dyfodol.

### Y Gymraeg ym Myd Amaeth

Comisiynwyd cwmni Egni Cyf i gynnal arolwg o brofiad siaradwyr Cymraeg ym myd amaeth, gan ganolbwyntio ar y gwasanaeth a gynigir i ffermwyr yng Nghymru gan Adran Amaeth Llywodraeth y Cynulliad, y Gwasanaeth Milfeddygaeth Gwladol, Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain, a'r Asiantaeth Taliadau Cefn Gwlad. Dengys yr arolwg fod profiad ffermwyr o ran cael gwasanaeth Cymraeg yn un amrywiol, cymysg ac anghyson. Mae'r Bwrdd, felly, am weithio'n agos gyda'r pedwar corff er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth sy'n adlewyrchu'n well y safonau a osodir yn eu Cynlluniau laith.

### Town and Country Planning

After the Board submitted detailed observations to the Ceredigion Unitary Development Plan Inquiry in 2004-05, the Council emphasised the need to have an agreed methodology on how the Welsh language should be considered as part of the planning process. The Board, therefore, jointly with the Welsh Assembly Government and Local Authorities, has commissioned a study to develop a methodology for this important field, so that authorities will have more definite guidance in the future.

### The Welsh Language in Agriculture

Egni Cyf was commissioned to hold a review of the experience of Welsh speakers in the field of agriculture, concentrating on the service offered to farmers in Wales by the Welsh Assembly Government's Agriculture Department, the National Veterinary Service, the British Cattle Movement Service and the Rural Payments Agency. The review shows that the experience of farmers as regards obtaining service in Welsh is varied, mixed and inconsistent. The Board is therefore going to work closely with the four bodies concerned in order to ensure that they provide a service that better reflects the standards set in their Language Schemes.

# NEGES Y PRIF WEITHREDWR

## MESSAGE FROM THE CHIEF EXECUTIVE



**Dyma fy mlwyddyn lawn gyntaf fel Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg: blwyddyn gyffrous, yn fy marn i, ond barnwch chi dros eich hunain wrth i chi astudio'r Adroddiad Blynyddol hwn.** O ddarllen yr adroddiad, buan y cewch weld fod tipyn mwy i gyflawni'n swyddogaeth statudol o hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg nag y byddai rhywun yn ei feddwl ar yr olwg gyntaf. Ac yn ddi-os, cynyddu defnyddio'r Gymraeg, ac achub ar bob cyfle i wneud hynny ar draws pob maes, yw ein cenhadaeth.

Mae prif gryfder ein gwaith yn deillio o ddau beth, rwy'n credu. Yn gyntaf, mae'n adlewyrchu ein gallu i fod yn arloesol wrth ddatblygu syniadau newydd. Mae rhai enghreiffitiau o hyn eleni eto, megis ein Cynllun Strategol, a'n strategaethau newydd ar gyfer ieuencid, technoleg gwybodaeth a data, ynghyd â'n gwaith gyda Microsoft i hwyluso gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfrifiaduron. Maes arall yr ydym yn ymdreiddio iddo am y tro cyntaf yw cyfieithu peiranyddol. Yn ail, rydym wedi bod yn gyson barod i ddefnyddio ein profiad a'n deall i adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol, ac i barhau i fuddsoddi yn ein partneriaid ac i ymddiried yn eu

**This is my first full year as Chief Executive of the Welsh Language Board: an exciting year in my opinion, but you can judge for yourself as you study this Annual Report.** As you read the report, you will soon see that there is quite a lot more to do than you would at first think, to carry out our statutory function of promoting and facilitating the use of the Welsh language. And undoubtedly, increasing the use of the Welsh language, and taking every opportunity to do so across all fields, is our mission.

The main strength of our work is the result of two things, I believe. Firstly, it reflects our ability to be innovative in developing new ideas. There are some examples of this again this year, such as our Strategic Plan, and our new strategies for young people, information technology and data, together with our work with Microsoft to facilitate working through the medium of Welsh on computers. Another area we are venturing into for the first time is machine translation. Secondly, we have been consistently willing to use our experience and understanding to build upon the successes of the past, and to

harbenigedd nhw. A chofiwch fod elfen arloesol ar gael yn nifer o'r cynlluniau rydym yn parhau i'w datblygu, megis Twf a'n prosiectau cymunedol – y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith ac ati – cynlluniau sy'n ennyn cryn ddiddordeb cydwladol. Eleni hefyd ar y lefel gydwladol, rydym newydd dderbyn y dasg o gydlyn gwaith y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Bydd hyn yn ymwneud yn bennaf â hybu ieithoedd cynhenid ar y cyd.

Ond yn ddi-os, prif sail cryfderau'r Bwrdd yw ei staff, criw o bobl amrywiol bid siŵr, gyda phawb â'u doniau arbennig a'u sgiliau gwahanol, ond yr hyn sy'n gyffredin i'r tîm i gyd yw eu hymroddiad dros ffyniant y Gymraeg a'u brwdfrydedd wrth gyflawni eu tasgau. Diolch o waelod calon iddyn nhw am eu holl waith a'u cefnogaeth.

Yn y misoedd i ddod, byddwn yn wynebu sialensiau newydd wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen i uno'r Bwrdd â Llywodraeth y Cynulliad. Gallaf eich sicrhau y byddwn yn gwneud hynny mewn modd cadarnhaol a phroffesiynol, fel pob amser, a'm gobaith personol i yw y bydd ein presenoldeb yn y corff hwnnw'n rhoi mwy o gyfle i fwy o'i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith pob dydd, fel y bydd yn adlewyrchu'n well ddyhead y Llywodraeth i greu Cymru wirioneddol ddwyieithog.

*Meirion Prys Jones*

Meirion Prys Jones  
Prif Weithredwr\_Chief Executive

continue to invest in our partners and to trust in their expertise. And remember that there is an innovative element to be found in several of the schemes we are continuing to develop, such as Twf and our community projects – the Mentrau Iaith, the Language Action Plans etc. – schemes that are attracting considerable interest internationally. This year also, on an international level, we have just accepted the task of co-ordinating the work of the British-Irish Council, on behalf of the Welsh Assembly Government. This will mainly involve jointly promoting indigenous languages.

But undoubtedly, the main foundations of the Board's strengths are its staff, a varied group of people, all with their particular talents and different skills, but what is common to the entire team is their commitment to the success of the Welsh language and their enthusiasm in carrying out their tasks. Heartfelt thanks to them all for all their work and support.

In the coming months, we will face new challenges as the work proceeds to unite the Board with the Welsh Assembly Government. I can assure you that we will do so in a positive and professional manner, as always, and it is my own personal hope that our presence within that body will provide more of an opportunity for more staff to use the Welsh language in their everyday work, so that it will better reflect the Government's desire to create a truly bilingual Wales.



## PARTNERIAID PARTNERS

Mae'r Bwrdd bob amser wedi rhoi pwyslais amlwg ar weithio mewn partneriaeth – drwy gydweithio'n agos â'r sefydliadau unigol sy'n derbyn grant a thrwy bartneriaethau ehangach eraill. Agwedd bwysig ar hyn fu'r gwaith o ddatblygu'r berthynas gydweithio gyda'n prif bartneriaid, gan gynnwys Mudiad Ysgolion Meithrin, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, y Mentrau Iaith, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Merched y Wawr, a Chlybiau Ffermwyr Ifanc Cymru. Er mwyn hwyluso'r cydweithio hwn, rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r partneriaid hyn ar lefel genedlaethol a sirol.

### Grantiau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg

Un o'r prif gyfryngau sydd gan y Bwrdd i feithrin partneriaethau yw'r Grantiau i Hyrwyddo'r Gymraeg. Yn 2004-05,

The Board has always placed emphasis on working in partnership – by working closely with the individual organisations that receive grants and through other, wider partnerships. An important aspect of this was the work of developing a working relationship with our major partners, including Mudiad Ysgolion Meithrin, the Urdd, the National Eisteddfod, the Mentrau Iaith, the Association of Welsh Translators and Interpreters, Merched y Wawr, and Young Farmers' Clubs. In order to facilitate this co-operation, we hold regular meetings with these partners at national and county level.

### Grants to promote the Welsh language

One of the main ways in which the Board can develop partnerships is by means of the Grants to promote

dyrannodd y Bwrdd grantiau gwerth dros £4 miliwn i 37 o sefydliadau. Cafodd y gwariant ei fonitro drwy gydol y flwyddyn yn erbyn targedau a gytunwyd cyn dechrau'r cyfnod gwariant. Ceir manylion pellach am y grantiau hyn yn Atodiad 2, ynghyd â'r grantiau a ddyfarnwyd ar gyfer 2005-06.

### Urdd Gobaith Cymru

Bu'n flwyddyn adeiladol arall i'r Urdd - yn llythrennol. Agorwyd estyniadau ac adeiladau newydd yng ngwersylloedd Glan-llyn a Llangrannog. Cynhaliwyd agoriad swyddogol gwersyll newydd yr Urdd ym Mae Caerdydd yn ogystal, ac mae'r gwersyll hwn wedi profi'n llwyddiant eisoes. Cynhaliwyd eisteddfod lwyddiannus ar faes y Primin ym Môn a bu gwaith paratoi manwl yn mynd rhagddo tuag at yr Eisteddfod gyntaf i'w chynnal ym Mae Caerdydd. Eleni hefyd, bu'r Urdd yn cydweithio'n agos gyda'r Bwrdd i weithredu ar argymhellion Arolwg o Waith Maes yr Urdd a gomisiynwyd gan y Bwrdd yn 2003-04. Yn ystod y flwyddyn, bu cynnydd amlwg yn y maes hyfforddiant, ac i ddiwygio strategaeth farchnata'r mudiad.

### Yr Eisteddfod Genedlaethol

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd eleni. O gofio ei bod mewn ardal sydd â chanran isel iawn o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg, bu'n Eisteddfod lwyddiannus ar sawl ystyr. Denwyd llawer iawn o bobl leol ddi-Gymraeg i'r Brifwyl o ganlyniad i waith marchnata eang yn y gymuned leol. Bu'n flwyddyn hefyd o gryn bwysau ariannol ar yr Eisteddfod. Ochr yn ochr ag ymdrechion gwirfoddol i godi arian,

the Welsh language. In 2004-05, the Board allocated grants worth more than £4 million to 37 organisations. The expenditure was monitored throughout the year against targets agreed before the expenditure period. Further details regarding these grants can be found at Annex 2, together with the grants allocated for 2005-06.

### Urdd Gobaith Cymru

It has literally been another constructive year for the Urdd. Extensions and new buildings were opened at the Urdd camps in Glan-llyn and Llangrannog. The official opening of the Urdd's new camp in Cardiff Bay was held too, and this camp has proved a success already. A successful eisteddfod was held on the Anglesey Show ground, and detailed preparatory work was carried out in respect of the first Eisteddfod to be held in Cardiff Bay. This year too, the Urdd worked closely with the Board to implement the recommendations of a Review of the Urdd's Field Work commissioned by the Board in 2003-04. During the year, there was obvious progress in the field of training, and in revising the organisation's marketing strategy.

### The National Eisteddfod

The National Eisteddfod was held in Newport this year. Bearing in mind that it was in an area in which a very low percentage of the population spoke Welsh, it was a successful Eisteddfod in many ways. Many local non-Welsh speakers were attracted to the Festival as a result of extensive marketing work in the local community. It was

a chyfraniadau ariannol ychwanegol sylweddol oddi wrth y Bwrdd a Llywodraeth y Cynulliad, bu'r Eisteddfod yn cydweithio'n agos â'r Bwrdd i weithredu ar gynlluniau i ddiwygio'i strwythurau er mwyn moderneiddio'r ffordd y caiff yr Ŵyl ei rheoli.

### Mudiad Ysgolion Meithrin

Mae niferoedd y Cylchoedd Ti a Fi yn parhau i gynyddu. Gwelwyd cynnydd o 11% yn niferoedd y plant yn mynychu, gyda 46 o grwpiau newydd yn cael eu sefydlu. Ail-lansiwyd ymgyrch farchnata'r Mudiad drwy gyfrwng llinell ffôn rhad ac am ddim (08000 112233) ar ddechrau 2004, gyda'r neges "Dechrau'r daith at ddwy iaith". O ganlyniad i gyllid sylweddol gan Lywodraeth y Cynulliad, mae'r Mudiad wedi sefydlu cynllun hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer ymarferwyr newydd i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. (Erbyn 2006 bydd 300 o ymarferwyr newydd wedi'u hyfforddi.) Gan fod y myfyrwyr yn hyfforddi yn y gweithle, mae'r Cylchoedd Meithrin yn elwa yn barod.

### Y Mentrau Iaith

Erbyn hyn mae 25 Menter Iaith yn gwasanaethu 18 sir ymron pob rhan o Gymru. Bu'n flwyddyn o gryfhau ymhellach y berthynas gydweithio a chydgyllunio gyda'r Bwrdd a phartneriaid eraill. Adlewyrchiad da o'r berthynas honno yw'r ffordd y mae prosiectau a ddatblygwyd gan Fentrau Iaith unigol wedi datblygu'n prosiectau rhanbarthol a chenedlaethol mewn partneriaeth â'r Bwrdd. Mae'r rhain yn cynnwys y **Pecyn Croeso – Symud i Gymru ac Cymraeg yn Gyntaf**, y cyfeirir atyn nhw yn yr adran ar y Gymuned uchod.

also a year of considerable financial pressures for the Eisteddfod. Alongside voluntary efforts to raise money, and substantial additional financial contributions from the Board and the Welsh Assembly Government, the Eisteddfod worked closely with the Board to act on plans to amend its structures in order to modernise the way in which the Festival is managed.

### Mudiad Ysgolion Meithrin

The numbers of Ti a Fi Groups continues to rise. An increase of 11% was seen in the number of children attending, with 46 new groups being established. The organisation's marketing campaign was re-launched through a free phone line (08000 112233) at the beginning of 2004, with the message "Dechrau'r daith at ddwy iaith" (Starting the journey towards two languages). As a result of receiving substantial funding from the Welsh Assembly Government, the organisation has established a national training scheme for new practitioners to work through the medium of Welsh. (By 2006, 300 new practitioners will have been trained.) As the students train in the workplace, the Cylchoedd Meithrin are already benefiting from the scheme.

### The Mentrau Iaith

By now there are 25 Mentrau Iaith serving 18 counties in almost all parts of Wales. It has been a year of further consolidating the relationship of co-operation and joint planning with the Board and other partners. A good reflection of that relationship is the way the projects developed by individual Mentrau Iaith have developed into regional and national projects in

Mae'r Bwrdd hefyd yn chwarae rôl ddatblygol wrth geisio cryfhau sefyllfa'r Mentrau Iaith fel sefydliadau. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cynnal gwefan a mewnrwyd ar gyfer y Mentrau a chyfarfod â Phwyllgorau Rheoli, gwirfoddolwyr a swyddogion ar sawl lefel. Yn sgil comisiynu dadansoddiad o anghenion hyfforddiant, cynhaliwyd rhaglen o hyfforddiant mewn meysydd amrywiol ar gyfer staff y Mentrau Iaith. Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol gyda'r Mentrau Iaith yng Nghaernarfon fis Ionawr lle rhoddwyd sylw i raglen Cymunedau'n Gyntaf y Llywodraeth ac i ddulliau targedu cynulleidfaoedd gwahanol.

partnership with the Board. These include the **Welcome Pack – Moving to Wales and Welsh - give it a go!**, referred to above in the section on the Community.

The Board also plays a developmental role in seeking to strengthen the position of the Mentrau Iaith as organisations. This work includes maintaining a website and intranet for the Mentrau, and meeting Management Committees, volunteers and officers at several levels. As a result of commissioning an analysis of training needs, a programme of training in various fields was held for the staff of the Mentrau Iaith. An annual conference was held with the Mentrau Iaith in Caernarfon in January where attention was given to the Government's Communities First programme and to methods of targeting different audiences.

## Gŵyl Santes Dwynwen \_ St Dwynwen's Day



Eleni eto bu'r Bwrdd yn gymorth i bobl ddathlu Gŵyl Santes Dwynwen ar 25 Ionawr 2005, a dosbarthwyd 100,000 o gardiau.

Once again this year, the Board helped celebrate St Dwynwen's Day on 25 January 2005, and 100,000 cards were distributed.



## AR HYD AC AR LED FAR AND WIDE

### Marchnata a Chyfathrebu

Mae elfen o farchnata ac o gyfathrebu yn perthyn i sawl agwedd ar waith y Bwrdd, a cheir nifer o enghreifftiau o hyn mewn adrannau eraill o'r adroddiad. Prif bwrpas ein gwaith yn y maes yw codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac annog mwy a mwy o bobl i'w pherchenogi a'i defnyddio.

Mae'r sioeau'n gyfle i greu ymwybyddiaeth, ennyn diddordeb ac i atgyfnerthu a throsglwyddo negeseuon pwysig i gynulleidfaoedd mewn modd rhyngweithiol, wyneb yn wyneb. Bu presenoldeb y Bwrdd yn y sioeau eleni yn llwyddiant mawr. Dyma'r tro cyntaf i ddelwedd newydd ein brand – y lliwiau llachar a'r swigod siarad – gael eu cyflwyno'n swyddogol i'r cyhoedd. Roedd diwyg y stondin yn Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn, y Sioe Amaethyddol

### Marketing and Communication

There are elements of marketing and communication in several aspects of the Board's work and a number of examples of this can be seen in other sections of the report. The main purpose of our work in the field is to raise awareness of the Welsh language and to encourage more and more people to own and use it.

The festivals are an opportunity to create awareness, spark interest and consolidate and transfer important messages to audiences in a proactive, face-to-face manner. The presence of the Board at the festivals this year was a great success. This was the first time for the new image of our brand – the bright colours and speech bubbles – to be introduced officially to the public. The appearance of the stand at the Urdd Eisteddfod in Anglesey, the Royal

yn Llanelwedd, a'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd yn gyfoes, cyfeillgar a chyson.

Dau o brif lwyddiannau presenoldeb y Bwrdd yn y sioeau eleni oedd y cinio busnes a noddwyd am y tro cyntaf yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd a'r Derbyniad a gynhaliwyd, eto am y tro cyntaf, ar stondin y Bwrdd yng Nghasnewydd. Ymysg y gwahoddedigion i'r cinio busnes, roedd cynrychiolaeth o NatWest, Tesco, Bigger Picture Training, Fforwm Canolfannau Cyswllt Cymru, Penderyn, Maes Awyr Caerdydd, HSBC, Acorn Recruitment, BT, a Quadrant. Roedd y derbyniad yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn gyfle i'r Bwrdd lansio ei bartneriaeth gyda Microsoft, i'r Cyn-gadeirydd ffarwelio, ac yn fwy na dim yn gyfle i gydnabod y cydweithio agos, diflino sydd rhwng y Bwrdd a'i bartneriaid.

Yn ogystal â'r tair sioe genedlaethol, rhoddwyd cefnogaeth ariannol i Wyl y Faenol eleni am y tro cyntaf, ac yn benodol ar gyfer cyngerdd Tân y Ddraig. Roedd gan y Bwrdd hefyd bresenoldeb mewn sioeau ac arddangosfeydd llai, sef arddangosfa addysg yng Nghaerdydd, Sesiwn Fawr Dolgellau, Miri Myrddin, Parti Ponty, a'r arddangosfa fusnes yng Nghaerdydd.

Welsh Show at Llanelwedd, and the National Eisteddfod at Newport, was contemporary, friendly and consistent.

Two of the main successes of the Board's presence at the festivals this year were the business lunch sponsored for the first time at the Royal Welsh Show in Llanelwedd and the Reception held, again for the first time, on the Board's stand in Newport. Among the invitees to the business lunch were representatives from Nat West, Tesco, Bigger Picture Training, Welsh Contact Centre Forum, Penderyn, Cardiff Airport, HSBC, Acorn Recruitment, BT, and Quadrant. The reception at the National Eisteddfod was an opportunity for the Board to launch its partnership with Microsoft, for the former Chairman to say farewell, and above all, it was an opportunity to acknowledge the close, tireless co-operation between the Board and its partners.

As well as the three national festivals, financial support was given to the Faenol Festival this year for the first time, and specifically for the Tân y Ddraig concert. The Board also had a presence at smaller festivals and exhibitions, namely the education

Welsh  
for Wales

Cymraeg  
dros  
Gymru

## Technoleg Gwybodaeth, Terminoleg a Chyfieithu

Rydym yn parhau i ddatblygu ein hymwneud yn y tri maes yma er mwyn codi statws yr iaith Gymraeg, cryfhau ei seilwaith, a hyrwyddo ac ehangu ei defnyddio.

Un o'r datblygiadau pwysicaf yn y maes technoleg gwybodaeth eleni oedd lansio Pecynnau Rhyngwyneb Iaith yn rhad ac am ddim ar gyfer Microsoft Office 2003 a Windows XP – a gyllidwyd gan gwmni Microsoft. Mae'r bartneriaeth rhwng y Bwrdd a chwmni Microsoft yn golygu y bydd pobl sy'n defnyddio Windows XP ac Office 2003 yn gallu dewis cael eu gorsafodded gwaith yn y Gymraeg, a chyda thechnoleg gwybodaeth yn chwarae rhan mor amlwg yn ein bywydau bob dydd, bydd hyn yn sicr o gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r Pecynnau Rhyngwyneb Cymraeg yn ganlyniad partneriaeth pymtheg mis rhwng y Bwrdd a Microsoft gyda chymorth amhrisiadwy cwmni chyfieithu Cymen

exhibition in Cardiff, Sesiwn Fawr Dolgellau, Miri Myrddin, Parti Ponty, and the business exhibition in Cardiff.

## Information Technology, Terminology and Translation

We are continuing to develop our involvement in these three fields in order to raise the status of the Welsh language, strengthen its foundations, and promote and expand its use.

One of the most important developments in the field of information technology this year was the launch of the free Language Interface Packages for Microsoft Office 2003 and Windows XP – financed by Microsoft. The partnership between the Board and Microsoft means that people who use Windows XP and Office 2003 can choose to have their workstations in Welsh, and with information technology playing such a prominent part in our everyday lives, this is certain to increase the opportunities to use the Welsh language. The Welsh Language Interface Packages are the result of a partnership

a chwmni technoleg Draig, ynghyd â gwasanaeth safoni termau gan Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Cymru, Bangor.

Hefyd, yn ystod y cyfnod, comisiynwyd prosiectau safoni termau yn y meysydd ecoleg, chwaraeon, a mân-werthu. Bydd y termau mân-werthu o gymorth mawr i siopau sy'n ceisio ehangu eu gwasanaethau dwyieithog. Bydd y termau chwaraeon (mynydda, hwylio a chanwio) yn cyfrannu at waith y Bwrdd i gynyddu defnyddio'r Gymraeg wrth hamddena.

Parhaodd y Bwrdd i gyfrannu at ddatblygiad y proffesiwn chyfieithu yng Nghymru drwy ddatblygu Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Cyfieithu Cymraeg/Saesneg mewn partneriaeth â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Y cam cyntaf yng ngweithrediad y strategaeth oedd comisiynu arolwg ystadegol o'r maes chyfieithu. Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn mynd allan i ymgynghori arni. Yn ogystal, derbyniwyd adroddiad

of fifteen months between the Board and Microsoft with the invaluable assistance of the Cymen translation company and the Draig technology company, together with the standardisation of terms service of Canolfan Bedwyr, University of Wales, Bangor.

Also, during the period, standardisation of terms projects were commissioned in the fields of ecology, sports, and retail. The retail terms will be of great use for shops trying to expand their bilingual services. The sports terms (mountaineering, sailing and canoeing) will contribute towards the Board's work in increasing the use of the Welsh language during leisure time.

The Board continued to contribute towards the development of the translation profession in Wales by developing a National Strategy for Welsh/English Translation in partnership with



Alun Pugh AC, Terry Smith o Microsoft, ynghyd â Meri Huws a Meirion Prys Jones o'r Bwrdd yn lansio rhyngwyneb newydd Microsoft.

Alun Pugh AM, Terry Smith from Microsoft, together with Meri Huws and Meirion Prys Jones from the Board launching the new Microsoft interface.





terfynol yr Athro Harold Somers, Prifysgol UMIST, a golygydd y **Journal of Machine Translation**, sy'n gosod cyfeiriad ar gyfer maes cyfieithu peirianyddol yn y tymor hir. Ym mis Mawrth 2005, fe wahoddod y Bwrdd dendrau i greu peiriant cyfieithu ar sail argymhellion yr adroddiad.

### Data ac Ymchwil

O ran data, parhaodd ein gwaith ar ddadansoddi'n fanwl ganlyniadau Cyfrifiad 2001 ar y Gymraeg. Mae ffrwyth ein gwaith i'w weld ar ein gwefan. Hefyd, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth y Cynulliad, cwblhawyd drafft o Strategaeth Data. Bydd hon yn sicrhau y bydd data mwy perthnasol, rheolaidd a sylweddol yn sail i gynllunio ieithyddol, a bydd yn uno ffynonellau ystadegol â rhai'r Llywodraeth.

O ran ymchwil, parhaodd Cwmni Iaith Cyf â phrosiect i ddadansoddi rhwydweithiau cymdeithasol pobl ifanc 13-17 oed mewn 12 ardal ledled Cymru, er mwyn gweld sut y gellid cynyddu'r defnydd. Derbyniwyd adroddiad drafft llawn ym mis Mawrth 2005. Hefyd,

the Association of Welsh Translators and Interpreters. The first step in the implementation of the strategy was to commission a statistical review of the translation field. Later this year, we will go out to consultation on it. Also, the final report of Professor Harold Somers, UMIST University, and editor of the **Journal of Machine Translation**, was received, which sets a direction for machine translation in the long term. In March 2005, the Board invited tenders to create a translation engine on the basis of the recommendations of the report.

### Data and Research

As regards data, our work on analysing in detail the results of the 2001 Census on the Welsh language continued. The fruits of our work can be seen on our website. Also, in consultation with the Welsh Assembly Government, a draft Data Strategy was completed. This will ensure that more relevant, regular and substantial data will be the basis of language planning, and it will combine statistical sources with those of the Government.

As far as research is concerned, Iaith Cyf continued its work on a project to analyse the social networks of young people aged 13-17 in 12 areas across Wales, in order to see how use could be increased. A full

mae cwmni MORI, ar ran y Bwrdd, yn cynnal arolwg defnydd iaith Cymru gyfan. Bydd y gwaith yn ffurfio rhan o astudiaeth 'Byw yng Nghymru' sydd wedi ei chomisiynu gan Lywodraeth y Cynulliad i edrych ar faterion yn ymwneud â chartrefi yng Nghymru. Mae'r prosiect yn rhedeg dros dair blynedd a bydd yn rhoi gwybodaeth werthfawr ar ddefnydd iaith i ategu'r wybodaeth am allu ieithyddol sy'n deillio o'r Cyfrifiad.

draft report was received in March 2005. Also the MORI company, on behalf of the Board, is holding a review of language use over the whole of Wales. The work will form part of the 'Byw yng Nghymru' ('Living in Wales') study which has been commissioned by the Welsh Assembly Government to look at matters relating to households in Wales. The project runs for three years and it will provide valuable information about the use of language, to supplement the information about linguistic ability from the Census.

## Iaith Gwaith

Pwrpas Iaith Gwaith yw dangos lle mae gwasanaeth dwyieithog ar gael. Mae dau fathodyn – un ar gyfer dysgwyr a'r llall ar gyfer siaradwyr rhugl.

The purpose of Iaith Gwaith is to show where a bilingual service is available. There are two badges – one for learners and the other for fluent speakers of Welsh.





## CEFNDIR BACKGROUND

### Statudol

Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel corff statudol ar 21 Rhagfyr 1993 gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Daw'r rhan fwyaf o gyllid y Bwrdd drwy grant o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae ei waith yn cael ei asesu'n flynyddol gan Lywodraeth y Cynulliad yn unol â thargedau mesuradwy. Ceir asesiad o berfformiad y Bwrdd yn erbyn prif dargedau 2004-05 yn Atodiad 1.

Swyddogaethau craidd y Bwrdd yw:

- Hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg.
- Cyngori a dylanwadu ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.
- Ysgogi a goruchwyllo'r broses o baratoi a gweithredu Cynlluniau Iaith.

### Statutory

The Welsh Language Board was established as a statutory body on 21 December 1993 by the Welsh Language Act 1993. Most of the Board's finance comes through a grant from the National Assembly for Wales, and its work is assessed annually by the Welsh Assembly Government in accordance with quantifiable targets. An assessment of the Board's performance against the main targets for 2004-05 can be seen in Annex 1.

The core functions of the Board are:

- To promote and facilitate the use of the Welsh language.
- To advise and influence matters involving the Welsh language.
- To encourage and supervise the process of preparing and

- Rhoi grantiau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith.
- Cadw gorolwg strategol dros addysg Gymraeg.

### Aelodaeth

Penodir aelodau'r Bwrdd gan Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon am gyfnod o dair blynedd. Cafodd yr un aelod ar ddeg presennol eu penodi yn 2003 am y cyfnod 2003-2006. Yn sgil ei benodiad fel Cyfarwyddwr Ofcom Cymru, ymddiswyddodd Rhodri Williams ar 31 Awst 2004 fel Cadeirydd y Bwrdd. Yna penodwyd Meri Huws yn Gadeirydd am y cyfnod 1 Medi 2004 tan 31 Awst 2007. Penodwyd y deg aelod arall am y cyfnod 1 Ebrill 2003 tan 31 Mawrth 2006. Dyma restr lawn o'r aelodau yn ystod y cyfnod adrodd:

#### Rhodri Williams

(Cadeirydd - tan 31 Awst 2004)  
- Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru

(Chairman - until 31 August 2004) - Director, Ofcom Wales

#### Meri Huws

(Cadeirydd - o 1 Medi 2004 ymlaen)  
- Pennaeth yr Adran Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Cymru, Bangor

(Chairman - from 1 September 2004 onwards) - Head of the Lifelong Learning Department, University of Wales, Bangor

#### Yr Athro Colin Baker

Athro Addysg a Chyfarwyddwr yr Uned Ymchwil, Prifysgol Cymru, Bangor

Professor of Education and Director of the Research Unit, University of Wales, Bangor

#### Sue Camper

Prif Gomisiynydd Cymru, Cyngor Sgowtiaid Cymru

Chief Commissioner for Wales, Wales Scouts Council

- implementing Language Schemes.
- To provide grants for promoting and facilitating use of the language.
- To keep a strategic overview of Welsh language education.

### Membership

Board members are appointed by the National Assembly Minister for Culture, the Welsh Language and Sport, for a period of three years. The existing eleven members were appointed in 2003 for the period 2003-2006. As a result of his appointment as Director of Ofcom Wales, Rhodri Williams resigned on 31 August 2004 as Chair of the Board. Then Meri Huws was appointed Chair for the period from 1 September 2004 to 31 August 2007. The other ten members were appointed for the period from 1 April 2003 to 31 March 2006. Here is a full list of the members during the reporting period.



**Betsan Dafydd**

Uwch Swyddog Ieuenctid gyda  
Chyngor Bwrdeistref Sirol  
Castell-nedd Port Talbot\*

Senior Youth Officer with  
Neath Port Talbot County  
Borough Council\*

**Ifan Evans**

Rheolwr Gyfarwyddwr,  
Rhiannon Cyf, Y Ganolfan Geltaidd

Managing Director,  
Rhiannon Cyf, The Celtic Centre

**Dr Arun Midha**

Cyfarwyddwr Busnes a Chynllunio,  
Ysgol Addysg Ôl-raddedig Feddygol  
a Deintyddol, Coleg Meddygol  
Prifysgol Cymru, Caerdydd

Director of Business and Planning,  
School of Postgraduate Medical  
and Dental Education, University of  
Wales College of Medicine, Cardiff

**Jeffrey Morgan**

Cadeirydd, Economy Power Cyf\*\*

Chairman, Economy Power Ltd\*\*

**Nia Parry**

Tiwtor/Cyflwynydd ar y rhaglenni  
teledu "Welsh in a Week"  
a "cariad@iaith"

Tutor/Presenter on the television  
programmes "Welsh in a Week"  
and "cariad@iaith"

**Rhiannon Walters**

Athrawes Fro,  
Cyngor Sir Powys

Community Teacher (Athrawes  
Fro), Powys County Council

**Marc Phillips**

Trefnydd Cenedlaethol, Plant  
mewn Angen, BBC Cymru

National Organiser, Children  
in Need, BBC Wales

**Yr Athro Colin Williams**

Athro Ymchwil mewn Sosio-  
ieithyddiaeth, Ysgol y Gymraeg,  
Prifysgol Cymru, Caerdydd

Research Professor in  
Sociolinguistics, School of Welsh,  
University of Wales, Cardiff

(\* Nid yw **Betsan Dafydd** wedi bod  
yn aelod gweithredol ers 1 Hydref  
2004 oherwydd cyfnod sabothol  
o'i gwaith amser llawn.)

(\* **Betsan Dafydd** has not been an  
active member since 1 October  
2004 due to being on sabbatical  
from her full time employment.)

(\*\* Hyd diwedd Mehefin 2005.)

(\*\* Until end June 2005.)

Mae disgwyl i'r Cadeirydd neilltuo  
dau ddiwrnod yr wythnos i  
faterion y Bwrdd, gyda'r aelodau'n  
neilltuo dau ddiwrnod y mis.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu  
canllawiau priodol ar arferion  
gweithredu da, yn unol â **Chod Arferion  
Gorau'r Llywodraeth i Aelodau  
Byrddau**. Rydym hefyd yn cadw cofrestr  
o ddiddordebau allanol yr aelodau.  
Mae copïau o'r rhain ar gael drwy  
wneud cais i swyddfeydd y Bwrdd.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd sefydlu Pwyllgor  
Archwilio, a sicrhau fod trefniadau  
cymwys yn eu lle ar gyfer archwilio.  
Yn ystod y cyfnod adrodd roedd  
pedwar aelod o'r Pwyllgor Archwilio,  
sef Jeffrey Morgan (Cadeirydd), Sue  
Camper, Ifan Evans ac Arun Midha,  
a chynhaliwyd dau gyfarfod.

**Cyfarfodydd**

Rhwng Ebrill 2004 a Mawrth  
2005 cynhaliodd y Bwrdd  
bedwar cyfarfod agored yn:

- Yr Wyddgrug, 14 Mai 2004
- Llangrannog, 23 Gorffennaf 2004
- Caergybi, 17 Hydref 2004
- Rhuthun, 27 Ionawr 2005

Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod  
caeedig yng Nghaerdydd ar 19  
Tachwedd, 2004 i drafod ceisiadau  
grant. Cyhoeddir manylion pob  
cyfarfod agored ymlaen llaw.

The Chair is expected to devote two  
days a week to Board matters, with the  
members devoting two days a month.

The Board has adopted appropriate  
guidelines on good working practices,  
in accordance with the **Government's  
Code of Best Practices for Members  
of Boards**. We also keep a record  
of the members' external interests.  
Copies of these are available on  
request from the Board's offices.

It is a requirement that the Board  
establishes an Audit Committee,  
and ensures that appropriate audit  
arrangements are in place. During  
the reporting period, there were four  
members of the Audit Committee,  
namely Jeffrey Morgan (Chair), Sue  
Camper, Ifan Evans and Arun Midha,  
and two meetings were held.

**Meetings**

Between April 2004 and March 2005  
the Board held four open meetings at:

- Mold, 14 May 2004
- Llangrannog, 23 July 2004
- Holyhead, 17 October 2004
- Ruthin, 27 January 2005

Also, a closed meeting was held in  
Cardiff on 19 November, 2004 to discuss  
